# Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Grwpiau Awdurdod Perthnasol Cymru
# Diweddariad 2018-19



# Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Grwpiau Awdurdod Perthnasol Cymru Diweddariad 2018-19

## Cyflwyniad

Sefydlwyd Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig i helpu i ddarparu cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ledled y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru. Ers hynny mae'r grŵp wedi paratoi Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru. Mae'r fframwaith yn nodi'r strwythur ar gyfer gwella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2018-23. Yn dilyn hyn, lluniwyd Cynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer 2018-19. Mae'r cynllun yn nodi'r camau gweithredu â blaenoriaeth a nodwyd gan Grŵp Llywio Rheoli'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig i gynnal a gwella rheolaeth a chyflwr rhwydwaith yr Ardaloedd hyn ledled Cymru.

Cytunodd y Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ei bod yn bwysig cynnal cysylltiadau rhwng y rhwydwaith a'r lefel leol. Felly, cafodd cam gweithredu 20 ei gynnwys yn y cynllun gweithredu:

'Cynnal cysylltiadau rhwng Cynllun Gweithredu'r Rhwydwaith a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn lleol lle maent yn bodoli, a chefnogi ymchwilio i gyfleoedd ariannu'

## Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Grwpiau Awdurdod Perthnasol

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â phump o'r 134 Ardal Forol Warchodedig yn nyfroedd Cymru, fodd bynnag maent yn cynrychioli'r Ardaloedd mwyaf ac felly'n cwmpasu cyfran fawr o rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru. Mae llawer o'r Ardaloedd llai fel SoDdGA a RAMSAR yn dod o fewn ffiniau'r pum safle ac yn helpu i'w hategu. Bydd prosiectau a wneir o fewn y pum Ardal Forol Warchodedig bob amser yn ystyried gofynion yr Ardaloedd llai sydd wedi'u cynnwys yn ogystal ag ystyriaethau eraill e.e. Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Bydd rhai o'r prosiectau hefyd yn helpu i ddarparu rheolaeth ar gyfer yr ACA Llamhidyddion newydd yn ogystal â safleoedd presennol heb Grŵp Awdurdod Perthnasol e.e. ACA y Fenai a Bae Conwy. Nodir llawer o'r prosiectau a amlinellir yn yr adroddiad hwn fel gweithredoedd lleol yng Nghynllun Gweithredu'r Rhwydwaith 2018-19, Atodiad 1.

Y Grwpiau Awdurdod Perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn:

- Grŵp Awdurdod Perthnasol Pen Llŷn a'r Sarnau
- Grŵp Awdurdod Perthnasol Bae Ceredigion
- Grŵp Awdurdod Perthnasol Morol Sir Benfro
- Grŵp Awdurdod Perthnasol Bae ac Aberoedd Caerfyrddin
- Grŵp Awdurdod Perthnasol Cymdeithas Aber Afon Hafren

## Gwaith arall

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar brosiectau sydd wedi'u cyflawni gan Grwpiau Awdurdod Perthnasol a swyddogion safle'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig a restrir uchod, a fydd yn helpu i wella neu gynnal cyflwr y safle. Fodd bynnag, mae sawl tasg a gyflawnir gan y Grwpiau Awdurdod Perthnasol a swyddogion safle sy'n hollbwysig er mwyn parhau i reoli'r safleoedd nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan brosiectau unigol. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Cynnal y Grŵp Awdurdod Perthnasol a'r Grŵp Cyswllt
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Codi ymwybyddiaeth ac addysg
- Cyrchu a sicrhau cyllid
- Pwynt cyswllt Ardaloedd Morol Gwarchodedig
- Darparu cyngor a gwybodaeth
- Gweithio gyda swyddogion safle eraill i sicrhau cysondeb ledled y rhwydwaith
- Eistedd ar grwpiau amrywiol i sicrhau bod Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu cynrychioli a hyrwyddo cydgysylltu, e.e. Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol etc.

Mae cyllid ar gyfer swyddogion safle Ardaloedd Morol Gwarchodedig wedi amrywio'n fawr dros y blynyddoedd. Adlewyrchir hyn yn nifer dyddiau'r wythnos y mae gan bob safle swyddog safle wedi'i neilltuo. Mae'n amrywio o un i bum diwrnod yr wythnos, gweler tabl 1. Mae hyn yn ei dro yn adlewyrchu hyd a lled y gwaith sy'n bosibl ar safle.

| Ardal Forol Warchodedig | Nifer o ddyddiau'r wythnos |
|---|---|
| ACA Pen Llŷn a'r Sarnau | 5 |
| ACA Bae Ceredigion | 4 |
| ACA Forol Sir Benfro | 2.5 |
| Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin | 1 |
| Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren | 2 |

Tabl 1: Nifer dyddiau'r wythnos y mae gan bob Ardal Forol Warchodedig swyddog safle wedi'i neilltuo

## Egwyddorion rheolaeth


Datblygodd Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig bum egwyddor i lywio cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer rheoli'r rhwydwaith. Mae pob amcan sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn cyfrannu at o leiaf un o'r pum egwyddor rheolaeth. Mae camau lleol yn cyfrannu'n bennaf at egwyddor rheolaeth 5, rheoli eang. Ond mae llawer hefyd yn cyfrannu at egwyddorion rheolaeth eraill.

| **Egwyddor Rheolaeth** |
|---|
| **ERh1**: Cynllunio strategol: |
| **ERh2**: Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu |
| **ERh3**: Cyngor ac arweiniad ar reoli |

| |
|---|
| **ERh4**: Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr |
| **ERh5**: Rheolaeth ehangach |

Tabl 2: Egwyddorion rheolaeth

## Tir a Môr Llŷn / O’r Môr i’r Mynydd




Sicrhawyd cyllid ar gyfer dau brosiect lefel dalgylch o fewn PLAS. Mae Tir a Môr Llŷn yn cwmpasu Penrhyn Llŷn ac wedi sicrhau cyllid tair blynedd o Gronfeydd y Cynllun Rheoli Cynaliadwy. Mae Môr i’r Mynydd yn cwmpasu traean isaf yr ACA ac mae wedi sicrhau cyllid pum mlynedd drwy'r Gronfa Tirweddau mewn Perygl. Nod y prosiectau hyn yw rheoli amgylcheddau morol, dŵr croyw a’r tir gyda'i gilydd. Mae'r Swyddog ACA yn arweinydd morol ar gyfer y ddau brosiect hyn. Mae llawer o'r prosiectau isod yn cael eu cyflawni o dan un neu ddau o'r prosiectau hyn. Yn ogystal â chyflawni prosiect, mae llawer o amser wedi'i dreulio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cynnwys

## Ansawdd Dŵr



Mae ansawdd dŵr yn fater y mae llawer o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar draws y rhwydwaith yn ei wynebu. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddalgylch Daron yn Llŷn. Gan weithio'n agos gyda phartneriaid, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, mae Afon Daron wedi'i samplu'n rheolaidd mewn sawl lleoliad dros gyfnod estynedig. Cynhaliwyd contract hefyd i gerdded y dalgylch cyfan i nodi ffynonellau llygredd. O ganlyniad, lluniwyd adroddiad yn nodi ffynonellau llygredd yn ogystal â darparu argymhellion a fydd yn arwain at well ansawdd dŵr. Yna, cynhaliwyd gweithdy llwyddiannus gyda thirfeddianwyr i gyflwyno'r canlyniadau a thrafod yr argymhellion. Y cam nesaf fydd gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad. Neilltuwyd cyllid ar gyfer hyn ym mhrosiect Tir a Môr Llŷn ar gyfer 2019-20. Mae gwaith hefyd wedi dechrau i osod y sylfeini ar gyfer adolygu data ar gyflwr maetholion, pysgod ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn dŵr croyw'r aber. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2019-20.

(Mae'r prosiect hwn hefyd yn cyfrannu tuag at Gam Gweithredu 15 “Archwilio sut y gellir cymhwyso'r canlyniadau o brosiectau peilot ar lygredd gwasgaredig ac atmosfferig ym Mhen Llŷn a'r Sarnau, ardal forol Sir Benfro ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Aber Afon Hafren ar draws y rhwydwaith”.)

## Cimychiaid Coch

Dywedwyd bod poblogaethau'r cimychiaid coch yn PLAS wedi cael eu difa yn y 1970au. Mae eu poblogaethau'n parhau i fod yn beryglus o isel. Mae cimychiaid coch yn rhan o'r nodwedd riff yn PLAS. Mae'r prosiect hwn yn ceisio archwilio opsiynau dichonadwy a fydd yn helpu i adfer y cimwch

coch. Mae'r Swyddog ACA wedi bod yn gweithio'n agos gyda meysydd ac arbenigwyr eraill i archwilio camau posibl. Mae'r Swyddog ACA wedi sicrhau cefnogaeth cymdeithasau pysgodfeydd lleol a chlybiau plymio. Mae Swyddog ACA ar hyn o bryd yn gweithio ar gasglu'r holl wybodaeth i sicrhau bod y prosiect yn seiliedig ar y dystiolaeth orau.

## Dyfrgwn

Mae dyfrgwn yn nodwedd o PLAS. Ar hyn o bryd maent mewn cyflwr ffafriol ond yn dal i wynebu nifer o broblemau. Mae dwy elfen i'r prosiect hwn, yn gyntaf sicrhau eu bod yn aros mewn cyflwr ffafriol ac yn ail i ddefnyddio'r dyfrgwn fel offeryn addysgol. Mae'r Swyddog ACA wedi bod yn casglu gwybodaeth am yr holl waith yn y gorffennol a'r presennol o ran dyfrgwn i weld ble mae'r bylchau ac i ganfod beth sydd angen ei wneud ymhellach. Bydd y dyfrgi hefyd yn cael ei ddefnyddio fel eicon i gynrychioli dull y dalgylch o reoli gan ei fod yn defnyddio amgylcheddau'r tir, dŵr croyw a morol. Bydd y dyfrgi yn ymddangos fel cymeriad yn y pecyn addysg newydd a bydd un o'r gweithgareddau yn canolbwyntio ar y dyfrgi.

## Sbwriel

Mae prosiectau sbwriel yn PLAS yn canolbwyntio ar nifer o wahanol elfennau, yn bennaf glanhau traethau, monitro sbwriel a lleihau sbwriel o'i ffynhonnell. Mae nifer o sesiynau glanhau traethau wedi cael eu cynnal ledled PLAS. Mae'r ymgyrch I'r Gwellt â'r Gwelltyn wedi parhau gyda llawer o fusnesau yn addo rhoi'r gorau i ddefnyddio gwellt neu newid i fersiynau bioddiraddadwy. Mae gwaith hefyd wedi mynd rhagddo i gynnal a chadw gorsafoedd #2minbeachclean. Bu PLAS hefyd yn gweithio gyda thîm o brifysgolion a hwyliodd gwch hir o Gymru i ddyfroedd yr Arctig i astudio effeithiau plastig. Bydd delweddau a ffilm a dynnwyd yn ystod y fordaith hon yn sail i arddangosfa a digwyddiad sbwriel PLAS yn 2019.



## Pecyn Addysg

Mae addysg yn elfen allweddol o reolaeth forol. Mae'r Swyddog ACA wedi bod yn arwain partneriaeth i ddatblygu pecyn addysg dwyieithog ar gyfer ysgolion cynradd. Bydd y pecyn yn rhoi sylw i amgylcheddau morol, dŵr croyw a'r tir yn unol â'r dull dalgylch o reoli. Cydweithiodd y Swyddog ACA hefyd ag ACA Forol Bae Ceredigion a Sir Benfro.

## #Largo18

Datblygwyd rhaglen o ddigwyddiadau gan #Ecoamgueddfa a phartneriaid i ddathlu blwyddyn y môr yn Llŷn yn 2018. Arweiniodd PLAS y gweithgareddau ymwybyddiaeth a oedd yn cynnwys sesiynau traeth, ymweliadau ysgol, cyflwyniadau yn ogystal â chyflwyno gêm sbwriel morol electronig newydd. Bu miloedd o blant, ymwelwyr a chymunedau lleol yn cymryd rhan yn y digwyddiadau.

## Y Cod Morwrol a Gwylio Dolffiniaid

Mewn partneriaeth ag ACA Ceredigion a rhanddeiliaid, cynhyrchwyd Cod Morwrol newydd ar gyfer PLAS yn 2016 i leihau aflonyddu ar famaliaid morol ac adar. Yna aeth y Swyddog ACA ymlaen i gynhyrchu cod ar gyfer Ynys Môn a Chonwy. Mae'r un cod bellach yn cael ei hyrwyddo ar draws y pedair sir ac

mae wedi'i fabwysiadu a'i ddosbarthu gan bob awdurdod lleol. Rhoddwyd hyfforddiant hefyd i staff morwrol yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Yn 2018-19 roedd y gwaith yn canolbwyntio ar ddosbarthu a hyrwyddo'r cod. Mae'r Swyddog ACA hefyd wedi bod yn gweithio gyda fforwm Arfordir Sir Benfro i ddatblygu mapio arbennig ar gyfer ardaloedd sensitif o PLAS. Mae hyn wedi cynnwys nifer o weithdai rhanddeiliaid. Mae'r Swyddog ACA hefyd wedi bod yn archwilio deunydd ategol posibl ar gyfer y codau morol a dulliau creadigol i wella dosbarthiad a chydymffurfiaeth. Mae Gwylio Dolffiniaid hefyd wedi parhau. Mae gwirfoddolwyr hyfforddedig yn defnyddio ffurflenni data i fonitro cydymffurfiaeth â'r cod morol.

## Prosiectau Pysgodfeydd

Mae’r Swyddog ACA yn parhau i weithio gyda physgotwyr a chymdeithasau lleol i ddatblygu prosiectau i ddilyn prosiect Ecosystemau Morol Llŷn.

## Cynllun Bioddiogelwch PLAS

Mae'r Swyddog ACA wedi bod yn gweithio gyda CNC i ddatblygu cynllun bioddiogelwch ar gyfer PLAS er mwyn helpu i atal lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. Eleni mae'r Swyddog ACA wedi cydlynu casglu data cyfredol ar ardaloedd â phroblem a llwybrau ar gyfer rhywogaethau estron yng Nghymru. Mae hyn wedi'i goladu i haenau map GIS. Bydd hyn yn sylfaen ar gyfer gwaith y cynllun bioddiogelwch o fis Ebrill 2019.

## Aflonyddu ar Forloi Bychain

Mae’r Swyddog ACA wedi cydgysylltu gwaith i archwilio’r opsiwn ar gyfer mynd i’r afael â phroblem aflonyddu ar forloi bychain, ar lefel genedlaethol. Mae hyn wedi cynnwys chwilio am gyllid, ysgrifennu cynigion a chydgysylltu panel.

## Prosiect y Galon Las

Nod prosiect y Galon Las oedd dod â'r berthynas rhwng pobl yn y DU a'r môr yn fyw drwy adrodd straeon. Casglwyd y data trwy gyfweliadau a recordiwyd ar fideo gan amrywiaeth o bobl â gwerthoedd a safbwyntiau amrywiol, mewn gwahanol leoliadau ledled y DU. Bu PLAS yn helpu i gyfweld â phobl yn PLAS ac yn darparu cefnogaeth gyda’r ochr Gymraeg. Bydd y prosiect yn cynhyrchu ffilm ddogfen derfynol sy'n adlewyrchu'r hyn a ddatgelodd y rhai a gafodd eu cyfweld am eu cysylltiad â'r cefnfor a'u barn ar faterion cadwraeth forol allweddol.

## Prosiect Morwellt Porthdinllaen

Mae'r prosiect hwn yn edrych ar opsiynau i leihau effaith pob math o angori ar forwellt. Mae gan Borthdinllaen un o'r gwelyau morwellt mwyaf a dwysaf yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2019 gosodwyd dwy angor heligol yn yr harbwr mewnol ym Mhorthdinllaen. Bydd y rhain yn cael eu treialu eleni yn y gobaith y byddant yn disodli'r angorfa concrid. Mae gan angorau heligol ôl-troed llai, felly maent yn cael llai o effaith wrth eu gosod, eu harchwilio ac wrth eu hailosod.

## Ymwybyddiaeth ac Addysg




Mae gan ymwybyddiaeth ac addysg rôl hollbwysig o fewn rheolaeth forol. Er mwyn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl, mae’r swyddog ACA wedi:

- Cyhoeddi rhifyn cyntaf cylchgrawn PLAS, O Dan y Don

- Bod yn weithgar ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol a chynnal gwefan PLAS
- Wedi ysgrifennu erthyglau ar gyfer nifer o gyhoeddiadau
- Wedi bod ar radio lleol ac wedi ymddangos ar y teledu yn trafod materion morol
- Gwneud nifer o gyflwyniadau
- Sicrhau bod deunydd PLAS wedi bod mewn gwahanol sioeau a digwyddiadau
- Ymweld ag ysgolion lleol
- Hyrwyddo ffilmiau PLAS
- Sioe deithiol addysgol forol mewn partneriaeth â Pharc Cenedlaethol Eryri

Am ragor o wybodaeth am y prosiectau hyn neu ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, cysylltwch ag Alison Hargrave yn alisonpalmerhargrave@gwynedd.llyw.cymru. Neu ewch i www.penllynarsarnau.co.uk. Mae gwybodaeth hefyd ar safleoedd Facebook a Twitter PLAS.



# Grŵp Awdurdod Perthnasol ACA Bae Ceredigion– diweddariad 2018/19

**Gwyddorau'r bobl**

Parhaodd y Swyddog Ardal Forol Warchodedig i recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr ar gyfer y prosiect monitro Gwylio Dolffiniaid. O fis Awst 2018, gyda chyllid gan CNC, ehangodd Swyddog Ardal Forol Warchodedig y prosiect hwn i fod yn rhaglen fonitro Gwylio Dolffiniaid a Llamhidyddion, gyda'r nod o recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr i gasglu data ar lamhidyddion ar hyd arfordir Ceredigion.



Ychydig o ddata sydd gennym ar hyn o bryd ar ddefnydd llamhidyddion o'r safle. Byddwn yn defnyddio'r data a gasglwn i gael dealltwriaeth well o sut mae llamhidyddion yn defnyddio'r safle; os yw hyn yn gysylltiedig ag absenoldeb dolffiniaid trwynbwl ar adeg eu gweld, a phatrymau ymddygiad osgoi posibl ar adegau o'r flwyddyn pan fydd dolffiniaid trwynbwl yn bresennol.

Bydd gwirfoddolwyr hefyd yn casglu data ar weld y frân goesgoch yn ystod gwanwyn 2019. Y nod yw casglu data sy'n nodi ardaloedd allweddol ar hyd arfordir Ceredigion ar gyfer y rhywogaeth hon, y defnydd o gynefinoedd gan y frân goesgoch, y safleoedd bwydo a ffefrir ac i geisio sefydlu lleoliad safleoedd nythu. Yna gellir defnyddio'r data hwn i lywio'r gwaith o reoli cynefinoedd yn y dyfodol.



Darparodd y Swyddog Ardal Forol Warchodedig hyfforddiant a chefnogaeth i wirfoddolwyr Gwylio Dolffiniaid presennol fel y gallent gynnwys llamhidyddion a brain coesgoch yn eu harsylwadau monitro y lleoliadau gwylio presennol. Cyflwynwyd pedair sesiwn hyfforddi ychwanegol ym mis Medi 2018 yng Nghraig yr Adar Ceinewydd, Aberporth, Aberystwyth a Mwnt.

**Digwyddiadau**

Cyflwynodd Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig dri ar ddeg o ddigwyddiadau gwylio Dolffiniaid a Llamhidyddion rhwng mis Awst a mis Hydref 2018 i ymgysylltu â'r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o lamhidyddion yn nyfroedd Cymru. Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn wrth fur Harbwr Ceinewydd, Craig yr Adar Ceinewydd a Mwnt. Cymerodd 88 aelod o'r cyhoedd ran yn y digwyddiadau hyn.

Hefyd, cynhaliodd Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig chwe gweithdy 'creadigaethau creaduriaid morol', gyda 44 aelod o'r cyhoedd yn bresennol, i godi ymwybyddiaeth o sbwriel morol yn ystod gwyliau hanner tymor yr hydref 2018.

Cynhaliodd Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig dri digwyddiad Gwylio Dolffiniaid a Llamhidyddion o wal yr harbwr yng Ngheinewydd yn ystod y pythefnos a oedd yn cynnwys gwyliau hanner tymor Chwefror ysgolion Cymru a Lloegr. Bu 22 o bobl yn cymryd rhan. Bu Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig hefyd yn cynnal digwyddiadau Gwylio Dolffiniaid a Llamhidyddion bob dydd Sadwrn drwy gydol mis Mawrth, ac mae llamhidyddion wedi cael eu gweld yn rheolaidd.

**Gwylio Dolffiniaid**


Fe wnaeth Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig fewnbynnu data Gwylio Dolffiniaid 2017 i'r gronfa ddata a llunio adroddiad Gwylio Dolffiniaid 2016.

**Gweithdai Ysgolion**

Darparodd Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig ymweliadau maes byr ar y glannau ar gyfer plant Cyfnod Allweddol Dau o ysgolion cynradd yn Aberaeron, Ceinewydd ac Aberporth i ddathlu ‘Blwyddyn y Môr’.

**Cod Ymddygiad Morol Ceredigion**

Hyrwyddodd Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig God Ymddygiad Morol Ceredigion drwy gydol tymor 2018; gan ddosbarthu copïau o'r cod i ddefnyddwyr dŵr sy'n lansio o Geinewydd ac addysgu'r defnyddwyr dŵr hynny nad ydynt yn dilyn ei argymhellion. Gweithiodd Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig yn agos gyda gweithredwyr cychod teithiau bywyd gwyllt i sicrhau bod y cod Masnachol yn cael ei ddilyn yn gyson. Rhoddwyd tri bwi 8 not allan gydol y tymor i dynnu sylw at y cyfyngiad cyflymder gwirfoddol ac i annog defnyddwyr dŵr i gadw eu llongau yn wynebu’r môr o'r bwiau mewn ardaloedd sensitif sy'n cynnwys cytrefi adar môr a safleoedd morloi.




**Deunydd dehongli**

Mae Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig wedi cynhyrchu taflenni a phaneli dehongli yn y Gymraeg a'r Saesneg i hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o’r frân goesgoch a llamhidyddion yng Ngheredigion fel rhan o brosiect a ariennir gan CNC i godi proffil y rhywogaethau hyn yng Ngheredigion.

**Sbwriel morol**

Yn sgil cynllun peilot llwyddiannus i leihau sbwriel morol a ariannwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mhentref Llangrannog yn 2016, a oedd yn rhan o brosiect cydweithredol gydag ACA PLAS, a gynhaliodd brosiect peilot tebyg yng Nghricieth; roeddem am achredu neu wobrwyo busnesau a oedd wedi lleihau eu defnydd a'u pecynnau plastig.



Fel rhan o brosiect lleihau sbwriel morol a ariannwyd gan CNC ar gyfer 2019, lansiodd Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig gystadleuaeth gyda phum ysgol gynradd arfordirol yng Ngheredigion. Gweithiodd y prosiect gyda phlant ym mlynyddoedd 5 a 6, ac yn dilyn gweithdy gyda Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig, roedd y disgyblion yn gyfrifol am ddylunio poster i'w ddefnyddio ar gyfer y cynllun achredu. Cymerodd 133 o blant ran, dewiswyd 5 cynllun buddugol, cafodd y plant hyn dystysgrifau a llyfr ffeithiol yn annog lleihau plastig, derbyniodd wyth arall hefyd dystysgrifau. Hefyd, rhoddodd Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig gopi o'r llyfr lleihau plastig i bob ysgol.

Mae'r cynlluniau a ddewiswyd yn achredu busnesau ar gyfer un o'r meysydd canlynol - peidio â rhoi gwellt plastig, lleihau plastig, lleihau deunydd pecynnu ac ail-lenwi poteli dŵr. Bydd y pumed cynllun yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion i annog lleihau plastig. Bydd y cynllun achredu yn cael ei gyflwyno yn ystod gwanwyn a haf 2019.

**Canolfan Gwybodaeth a Gweithgarwch Ardal Forol Warchodedig Bae Ceredigion**

Agorodd Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig y Ganolfan Ymwelwyr ar wal harbwr Ceinewydd bob dydd Sadwrn o ddechrau Ebrill i ddiwedd Hydref 2018 ac yn ystod gwyliau'r ysgol yn ystod Chwefror a Mawrth 2019.



Am ragor o wybodaeth am y prosiectau hyn neu ACA Bae Ceredigion, cysylltwch â Melanie Heath ar Melanie.Heath2@ceredigion.gov.uk.


## Grŵp Awdurdod Perthnasol ACA Forol Sir Benfro – Diweddariadau Ebrill 2018 – Mawrth 2019

Mae **SWEPT** (***Surveying the Waterway Environment for Pollution Threats***) wedi'i arwain gan Swyddog ACA Forol Sir Benfro a'i gyd-gyflwyno gydag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru, Fforwm Arfordirol Sir Benfro a Chanolfan Darwin. Mae wedi'i ariannu gan grant CNC. Mae SWEPT wedi recriwtio, trefnu, a hyfforddi gwirfoddolwyr gwyddorau pobl i gasglu data amgylcheddol o fewn Dyfrffordd Aberdaugleddau. Mae'r data hwn (gan gynnwys canlyniadau profion samplau dŵr am nitradau a ffosffadau) yn cael ei ddefnyddio i ddeall yn well effeithiau dŵr ffo ar yr amgylchedd morol, ac i arwain at welliannau amgylcheddol.

Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau lleol i recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer y prosiect ddiwedd yr haf 2018. Daeth pentwr o ffurflenni cofrestru i law; roedd lefel y diddordeb yn syndod i bawb. Roedd nifer fawr y gwirfoddolwyr yn golygu y gellid arolygu mwy o'r Ddyfrffordd. Penderfynwyd ar gwmpas yr arolwg yn bennaf ar sail mynediad; yn y diwedd, dyrannwyd 46 darn i wirfoddolwyr.



Defnyddiwyd pecynnau Kyoritsu PackTest i samplu'r dŵr gan mai nhw yw'r rhai cywiraf a rhataf ac mae'n hawdd eu defnyddio. Fodd bynnag, gan eu bod yn cael eu cynhyrchu yn Siapan, roedd angen cryn amser i sicrhau'r stoc. Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf ddiwedd mis Tachwedd 2018, gyda thri arolwg arall eto ym mis Rhagfyr, Ionawr a Chwefror. Mae data'n cael ei gasglu a'i ddadansoddi ar hyn o bryd. Arweiniodd yr arolwg cyntaf yn unig at gymryd 729 o ffotograffau, 273 o fewnbynnau dŵr wedi'u cofnodi yn unigol, a 190 o samplau dŵr wedi'u profi ar gyfer eu lefelau nitrad a ffosffad. Mae arwyddion cynnar yn dangos bod nitrad ar lefelau uchel iawn mewn llawer o leoedd (nid yw'n syndod, ond mae lefelau'n amrywio ar raddfa leol). Yn gyffredinol, mae ffosffad yn isel drwyddo draw - ni chofnodwyd unrhyw lefelau uchel o gwbl. Yn ogystal â chanlyniadau ansawdd dŵr, casglodd gwirfoddolwyr wybodaeth hefyd am ganfyddiadau diddorol, sbwriel morol, rhywogaethau estron ac unrhyw fygythiadau llygredd eraill fel olew neu dipio anghyfreithlon. Arweiniodd arolygon SWEPT at rai adroddiadau i Cyfoeth Naturiol Cymru am bryderon llygredd brys gan helpu i atal llygredd.



Map o ddata sampl dŵr SWEPT (lefelau nitrad) o Arolwg 1 (Tachwedd 2018).

Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau arolwg gan grwpiau addysg gyda theithiau canŵ yn cyrraedd ardaloedd

anodd eu cyrraedd. Cynhaliwyd digwyddiad adborth ar gyfer gwirfoddolwyr ym mis Mai a thrafodwyd y camau nesaf posibl gyda CNC.

Bydd adroddiad prosiect terfynol yn cael ei gwblhau erbyn yr hydref. Yn ddi-os, mae SWEPT wedi codi ymwybyddiaeth o ddŵr ffo o’r tir sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol a gobeithio y bydd hyn yn arwain at newidiadau wrth reoli tir a lleihad mewn llygredd maetholion yn y Ddyfrffordd, gan arwain at well statws ecolegol i Ddyfrffordd Aberdaugleddau ac i welliant yng nghyflwr ACA Forol Sir Benfro.

(Mae'r prosiect hwn hefyd yn cyfrannu tuag at Gam Gweithredu 15 “Archwilio sut y gellir cymhwyso'r canlyniadau o brosiectau peilot ar lygredd gwasgaredig ac atmosfferig ym Mhen Llŷn a'r Sarnau, ardal forol Sir Benfro ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Aber Afon Hafren ar draws y rhwydwaith”.)

**Pecyn Addysg Dwyieithog Morol Sir Benfro** Mae darparu adnodd addysg dwyieithog wedi bod yn ddyhead ers gwaith y Sioe Deithiol Ymwybyddiaeth Forol i Ysgolion (MARS) yn 2012-2015. Cysylltodd y Swyddog ACA yn gynnar ag addysgwyr lleol a phartïon â diddordeb i sicrhau cydweithio da ac i dargedu'r adnodd yn briodol. Cytunwyd y byddai'r pecyn yn cael ei anelu'n bennaf at addysg gynradd, ond y byddai’n berthnasol i grwpiau eraill ei ddefnyddio. Cafwyd cyswllt hefyd gyda Swyddog Ardal Forol Warchodedig Bae Ceredigion i dynnu ar ei phrofiad helaeth o waith ym maes addysg forol, sydd eisoes wedi arwain at Becyn Addysg Glan y Môr. Roedd hyn yn ddefnyddiol iawn a rhoddodd syniad cliriach o'r hyn y gallai'r pecyn ei gynnwys a sut y gellid ei gyflwyno. Yn ogystal, bu cydweithio ag Alison Hargrave (Swyddog ACA PLAS) a oedd hefyd yn datblygu rhai adnoddau addysg.

Cynhaliwyd gweithdy gyda rhai athrawon ym mis Mawrth 2019 lle y trafodwyd ac y cyflwynwyd pecyn addysg drafft o wybodaeth a syniadau i'w cynnwys ymhellach. Mae'r pecyn yn cynnwys gweithgareddau ar y lan ac yn y dosbarth yn ogystal â gwybodaeth ddefnyddiol ar y traeth i gynorthwyo arweinwyr ac i roi'r hyder iddynt ymgymryd â theithiau glan y môr diogel, cynhyrchiol a hwyliog. Bydd yn cael ei ddarparu fel e-gopi yn unig ac mae wedi'i ddylunio fel y gall defnyddwyr argraffu gweithgareddau unigol yn ôl yr angen. Gydag ychydig o addasu i gael gwared ar y cyd-destun lleol, mae'r pecyn hefyd yn gallu cyflawni gofynion Cadwch Gymru'n Daclus am adnodd addysg forol genedlaethol sydd ar gael yn rhwydd i bawb. Dylid cwblhau'r adnodd erbyn tymor yr haf a bwriedir cynnal digwyddiad lansio i godi ymwybyddiaeth o'i fodolaeth a darparu hyfforddiant i athrawon.



**Rheoli palu am abwyd.** Cyflwynwyd cod ymddygiad palu am abwyd yn 2015 i ardal ger Dale lle’r oedd cloddio dwys am abwyd yn cael effaith negyddol. Roedd y cod yn argymhelliad gan adolygiad deddfwriaethol ac astudiaeth achos a gomisiynodd y Grŵp Awdurdod Perthnasol, fel cam cyntaf tuag at reoli palu am abwyd yn yr ardal yn yr hirdymor. Nodwyd is-ddeddf gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fel dilyniant rhesymegol, gyda’r ‘cod’ yn cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth statudol i bob pwrpas. Bu'n rhaid i'r achos dros gyflwyno is-ddeddf gael ei gyflwyno gerbron CNC a'i gymeradwyo gan y byrddau priodol, sydd bellach wedi digwydd. Fodd bynnag, mae sefyllfa adnoddau CNC yn golygu na welir digon o adnoddau ar hyn o bryd i blismona'r is-ddeddf yn effeithiol pe bai'n cael ei chyflwyno – sydd ddim yn sefyllfa ddelfrydol. Dyma'r cyfyngiad presennol ar fynd i'r afael â rheoli cloddio abwyd ger Dale. Codwyd y mater hwn yn ddiweddar ym mhrosiect

gweithgareddau heb eu trwyddedu Cymru dan arweiniad CNC a’r gobaith yw dod o hyd i ateb yn fuan.

**Gallu hamdden yr arfordir o fewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig.** Mae'r Swyddog ACA yn aelod o'r grŵp llywio ac mae wedi bod yn cyfrannu at brosiect Mapio Gweithgareddau Cymru dan arweiniad Fforwm Arfordirol Sir Benfro sy'n diweddaru gwybodaeth gyfredol ac yn pwyso a mesur gweithgareddau hamdden cynaliadwy. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae gwrthdaro rhwng gweithgarwch hamdden a nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu mapio i weld pa mor ddyrys ydynt fel adnodd i helpu i lywio'r rheolwyr. Mae mynd i'r afael â chapasiti hamdden wedi bod yn gam gweithredu o fewn Cynllun Rheoli'r ACA ers 2008.

Am ragor o wybodaeth am y prosiectau hyn neu ACA Forol Sir Benfro, cysylltwch â Sue Barton yn sue.burton@mhpa.co.uk.

# Grŵp Awdurdod Perthnasol Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin – Diweddariad 2018/19

Ar hyn o bryd, dim ond am un diwrnod yr wythnos y cyflogir Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin, yn sgil y cyllid sydd ar gael gan bartneriaid y Grŵp Awdurdodau Perthnasol. Ariannwyd y swydd yn ddiweddar am 12 mis o 1 Ebrill 2019 tan 30 Mawrth 2020.

Felly mae'n anodd ymgymryd ag unrhyw waith prosiect mewn amser mor gyfyngedig. Y prif feysydd gwaith yw:


- gweithredu fel Ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp Awdurdod Perthnasol - anfon gwybodaeth, cymryd cofnodion yng nghyfarfodydd y Grŵp, trefnu cyfarfodydd - gosod Agenda a gwahodd siaradwyr, dosbarthu cofnodion
- mynychu cyfarfodydd allanol a darparu adborth i'r Grŵp Awdurdod Perthnasol
- ymateb i ymgynghoriadau
- cysylltu â Swyddogion Safleoedd Morol Ewropeaidd eraill Cymru
- cynhyrchu a dosbarthu taflen wybodaeth ddiweddar ar y safle
- cysylltu â swyddogion CNC sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar y safle
- ateb ymholiadau e-bost
- cyfrannu at geisiadau / prosiectau cyllid

Am ragor o wybodaeth am y prosiectau hyn neu Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin, cysylltwch â Judith Oakley yn Judith.Oakley@swansea.gov.uk.

# Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Aber Afon Hafren (ASERA) – diweddariad 2018/19

## Cynllun Rheoli Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren a Chynllun Gweithredu Awdurdodau Perthnasol

Roedd ASERA yn falch o gyhoeddi Cynllun Rheoli Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren a Chynllluniau Gweithredu Perthnasol yr Awdurdod Perthnasol 2018-2023 ym mis Mai 2018. Mae Cynllun Rheoli ASERA yn darparu mecanwaith i Awdurdodau Perthnasol osod y fframwaith ar gyfer eu gweithgareddau sy’n cael eu rheoli, naill ai'n wirfoddol neu drwy ddeddfwriaeth, i gyflawni amcanion cadwraeth natur y safle. Mae'n ystyried a yw gweithgareddau'n achosi effeithiau andwyol ac, os felly, sut y gall Awdurdodau Perthnasol reoleiddio gweithgareddau o'r fath i atal difrod i nodweddion ac is-nodweddion y safle. Gall effaith gweithgaredd ddibynnu ar ei raddfa, ei leoliad a'i amlder, yn ogystal â natur fregus nodwedd.





Mae Cynlluniau Gweithredu yn darparu'r mecanwaith i Awdurdodau Perthnasol fynd i'r afael â'r canlynol:

- Gweithgareddau y nodwyd eu bod yn debygol o achosi dirywiad neu aflonyddwch sylweddol i'r safle;
- Gweithgareddau nad yw eu heffeithiau'n hysbys (h.y. *nid oes digon o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i bennu lefel y dirywiad neu'r aflonyddwch i'r safle*);
- Cynlluniau a phrosiectau penodol o natur barhaus ac ailadroddus y gall ASERA hwyluso cynhyrchu nodiadau cyfarwyddyd ar eu cyfer.

Y flwyddyn adrodd ar gyfer Cynlluniau Gweithredu yr Awdurdod Perthnasol yw 1 Ebrill i 31 Mawrth. Bydd yr adroddiad cyntaf ar gyfer 2018-2019 ar gael ym mis Mai 2019.

## Canllawiau Arfer Da Aber Afon Hafren




Mae ASERA wedi nodi aflonyddu hamdden fel un o'r materion allweddol sy'n effeithio ar statws cadwraeth Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren. Aflonyddu yw unrhyw weithgaredd neu sŵn a allai newid ymddygiad anifail (bwydo, gorffwys neu fridio) neu strwythur cynefin. Gall aflonyddu dro ar ôl tro fygwth goroesiad rhai o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd allweddol a ddynodwyd o dan Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren.

Er iddynt gael eu llunio yn 2017, mae hyrwyddo'r canllawiau yn parhau i fod yn rhan allweddol o waith ASERA i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n weithredol gan Awdurdodau Perthnasol ac yn cael eu parchu gan grwpiau defnyddwyr.

## Astudiaethau Hamdden

Fel y crybwyllwyd uchod, mae aflonyddu hamdden wedi'i nodi fel mater allweddol ar gyfer Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren. Ffocws allweddol y Swyddog ASERA oedd cynnal adolygiad o weithgareddau er mwyn deall yr effaith bosibl y gallent fod yn ei chael ar nodweddion y Safle Morol Ewropeaidd,

### *Hamdden ar y Tir*

Nod Cam 1 yr astudiaeth hon yw dwyn ynghyd y data presennol ar amrywiaeth o weithgareddau hamdden ar y tir (e.e. gwylio adar), gweithgareddau ar y traeth (e.e. syrffio barcud, gyrru bygis tywod, motor-cross) a mynediad arfordirol. Mae data'n cael ei gasglu ar hyn o bryd ar ddwyster, amlder a lleoliad y gweithgareddau hyn ochr yn ochr â Môr Hafren a'r ardal gyfagos. Mae adroddiad Cam 1 bellach yn ei gam drafft cyntaf a chytunwyd y bydd is-grŵp o aelodau ASERA yn adolygu'r data hwn. Bydd yr is-grŵp hwn yn cael ei ehangu i gynnwys mewnbwn rhanddeiliaid ehangach yn ddiweddarach eleni. Mae'n debygol yr ymgynghorir ar yr adroddiad cryno yn ystod 2019.

### *Palu am Abwyd a Physgota Hamdden*

Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys pysgota ar y lan a physgota o gychod, a phalu am abwyd at ddibenion hamdden. Mae Cam 1 yr astudiaeth wedi cynnwys coladu a mapio gwybodaeth bresennol am y gweithgareddau hyn, er mwyn nodi lle mae bylchau mewn data / tystiolaeth. Mae Cam 2 yn debygol o gynnwys arolygon safle, gyda'r prosiect i'w gwblhau erbyn 2019-20. Bydd y dystiolaeth hon yn llywio a oes angen unrhyw gamau rheoli ar gyfer Awdurdodau Perthnasol.

## Bioddiogelwch ym Môr Hafren – Beth yw'r Risg?

Ym mis Mai 2018, darparodd ASERA blatfform i dreialu a phrofi pecyn hyfforddiant bioddiogelwch prosiect RAPID LIFE sy'n targedu grwpiau defnyddwyr sydd yn y perygl mwyaf o ledaenu Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) mewn amgylcheddau arfordirol. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, mae'r grŵp wedi cytuno i gynnal asesiad risg lefel uchel o rywogaethau estron goresgynnol yn Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren. Yn ddiweddar rydym wedi llwyddo i gael cyllid i leoli myfyrwyr am 8 wythnos i gefnogi'r adolygiad hwn. Bydd hyn yn cynnwys casglu'r wybodaeth sydd ar gael am bresenoldeb a lleoliad rhywogaethau estron goresgynnol sefydledig o fewn y Safle Morol Ewropeaidd, y mathau posibl o lwybrau ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol sy'n ymledu o fewn a gerllaw'r safle a sut y gall defnydd hamdden a masnachol yr aber ddylanwadu ar ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. Sefydlwyd is-grŵp penodol o aelodau ASERA hefyd i oruchwylio'r adolygiad hwn.

## Codi Ymwybyddiaeth, Cyfarfodydd ASERA ac Ymgysylltu Allanol

Mae'r Swyddog ASERA yn parhau i gefnogi'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol, gan hwyluso cyfarfodydd Gweithgor a Rheoli ASERA, a threfnu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Tachwedd 2018).

Roeddem hefyd yn aelodau gweithgar o bartneriaeth Moroedd Gwyllt Cymru yn hyrwyddo hamdden morol cyfrifol fel rhan o Flwyddyn y Môr Croeso Cymru 2018. Rydym hefyd wedi bod yn bresennol mewn



*Ffigur 1. Aelodau Grŵp Rheol ASERA ar daith o Borthladd Bryste ym mis Tachwedd 2018.*

nifer o ddigwyddiadau dros y flwyddyn, fel Ras Ocean Volvo yng Nghaerdydd, gan hyrwyddo ein Canllawiau Arfer Da ar gyfer hamdden a rhannu gwybodaeth am waith ASERA.

Mae ASERA hefyd wedi cael eu cynrychioli gan y Swyddog ASERA ar Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynghori a Gweithredu Morol Cymru (WMAAG), gan sicrhau bod Safle Morol Ewropeaidd trawsffiniol Aber Afon Hafren wedi cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag amgylchedd morol Cymru a Lloegr.

Am ragor o wybodaeth am weithgareddau ASERA, cysylltwch â Lucy Taylor yn TaylorL14@cardiff.ac.uk.